| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR.** |
| **DYDDIAD:** | **21, HYDREF, 2010** |
| **TEITL:** | **AELODAU CYFETHOLEDIG AR Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** |

1. Mae gan Gynghorau hawl i gyfethol aelodau nad ydynt yn gynghorwyr i bwyllgorau er mwyn dod ag arbenigedd mewn maes arbennig i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith. Heblaw am rai eithriadau prin, nid oes gan yr aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio.

2.. Mae gan y Pwyllgor Craffu Gofal chwe aelod cyfetholedig yn cynrychioli gwahanol sectorau. Felly, mae cynrychiolwyr o'r sector wirfoddol iechyd meddwl ac o Age Concern yn cynorthwyo gwaith y Pwyllgor ar yr ochr Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion. Mae cynrychiolwyr o'r Heddlu ac o'r Bwrdd Iechyd wedi eu penodi oherwydd swyddogaethau'r Pwyllgor yn ymdrin â throsedd ac anhrefn. Mae dau gynrychiolydd o Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd gafodd eu cyfethol i gyfrannu arbenigedd ar yr ochr tai.

3. Bellach mae'r stoc tai wedi trosglwyddo ac ychydig o amser y Pwyllgor a roddir i faterion tai o'i gymharu â'i gyfrifoldebau eraill. Hefyd, mae mwy o bwyslais yn cael ei roi erbyn hyn ar y swyddogaeth trosedd ac anhrefn. Yn yr amgylchiadau, er bod cyfraniad y tenantiaid yn werthfawr wrth drafod materion strategol tai, mae'n anodd gweld cyfiawnhad i roi dwy sedd gyfetholedig ar y Pwyllgor i gynrychiolwyr o Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd.

4. Penodwyd yr aelodau cyfetholedig sy'n ymdrin â materion trosedd ac anhrefn ym Medi, 2009. Pryd hynny, sicrhawyd sedd ar y Pwyllgor i bob un o bartneriaid statudol y bartneriaeth trosedd ac anhrefn, naill a'i drwy aelod cyfetholedig neu drwy gynghorydd. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Prawf wedi dod yn bartner statudol ac er sicrhau cyfartaledd, byddai'n deg cynnig sedd gyfetholedig iddynt hwythau.

5. Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Craffu Gofal ar 28, Medi, 2010 pryd y penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Llawn y dylid newid aelodaeth gyfetholedig y pwyllgor i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

6. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig newidiadau i gwrdd â sefyllfa bresennol y Pwyllgor. Dylid nodi fod Mesur Llywodraeth Leol Cymru yn golygu y bydd rhaid rhoi sylw pellach i gyfansoddiad Pwyllgorau Craffu a nifer yr aelodau cyfetholedig arnynt yn ystod y deuddeg mis nesaf.

**ARGYMHELLIAD.**

7. Argymhellir fod y Cyngor yn newid cynrychiolaeth aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu Gofal drwy ddiddymu aelodaeth y ddau gynrychiolydd o Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd a chynnwys un aelod o'r Gwasanaeth Prawf, yn eu lle.